# Bwletin Menter Môn

mentermon.com
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

Cymuned | Economi | Ynni

## Bywyd Newydd i Hen Gapel yng Ngwynedd

Mae dros 40 o gymunedau ar draws Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth gan raglen Grymuso Gwynedd, gan gynnwys Pencaenewydd. Mae'r gymuned wedi dod ynghyd i ddathlu a datblygu ased hollbwysig iddynt, sef Capel Pencaenewydd, sy'n nyth o weithgarwch amrywiol deniadol i bob oed. Uchafbwynt y prosiect oedd cynnal gŵyl ddrama tair noson a lwyddodd i roi Pencaenewydd ar y map a denu cannoedd o bobl i fwynhau gwledd o adloniant. Mae'r capel gam ymhellach i ddod yn ased cymunedol hunan gynhaliol, ac mae'n saff dweud ei fod wedi ennill ei le fel calon y gymuned. Gwyliwch y fideo i ddysgu mwy am eu llwyddiant.

**Cliciwch yma i wylio'r fideo.**



## Cyfle Melys i Unigolyn Ifanc Lleol Aros Ym Môn




Yn ddiweddar, fe agorodd yr entrepreneur lleol Richard Holt, Ffatri Siocled newydd yn Llangefni ac mae'n frwdfrydig dros gynnig cyfleoedd i dalent ifanc yr ardal.

Ymunodd Luke Rhodes â'r cwmni yn ddiweddar fel siocledydd, a daeth o hyd i'r cyfle hwn trwy elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol, cynllun sy'n hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a chymdeithasol yn ardal Arfor.

Meddai Luke, "Roeddwn i'n meddwl o'r blaen mai dim ond mewn trefi neu ddinasoedd oedd gwaith fel hyn ar gael. Roedd gen i'r syniad y byddai'n rhaid i mi ddewis rhwng fy ngyrfa neu neu allu byw gartra. Rwy'n ddiolchgar i allu gwneud y ddau ar yr un pryd."

**Darganfyddwch fwy yma.**

## Darparu Pwdinau Blasus i Drigolion Llangefni

Wedi'i leoli ar Stryd Fawr Llangefni mae Bar Pwdinau Kico's, a'i sefydlwyd gan Emma a Vicky Roberts, gyda chymorth gan yr Hwb Menter. Dyma Hafan newydd sbon i unrhyw un sydd â dant melys! Mae'n cynnig amrywiaeth blasus o ddanteithion - o gacennau a thartenni clasurol, i hufen iâ hufennog a choffi wedi'i fragu'n ffres.

Nid oedd y daith i agor Kico's yn hawdd, ond parhaodd y ddwy, wedi'u hysgogi gan eu gweledigaeth. Dywedodd Emma. "Roedden ni eisiau creu gofod croesawgar lle gall pobl ddod at ei gilydd, ymlacio, a mwynhau danteithion blasus. Rydyn ni'n credu y bydd Kico's yn dod yn rhan annatod o'r sin lleol."

**Gwyliwch mwy o hanes Kico's yma.**







## Digwyddiadau Cadwyn Gyflenwi Sector Cyhoeddus i Godi Chwant Cynhyrchwyr Bwyd yng Nghymru

Trwy Busnes Cymru mae'r prosiect wedi gweithio'n galed i ddarparu llwyfan i gynhyrchwyr annibynnol, busnesau bach, a chwmnïau mwy yng Nghymru er mwyn iddynt allu torri i mewn i gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus. Boed hynny'n awdurdodau lleol, ysgolion, ysbytai neu sefydliadau perthnasol, mae angen annog mwy o ddefnydd o fwyd a diod lleol yn eu bwydlenni.

Mae gwneud hyn yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd gan ei fod yn lleihau eu hôl troed carbon ond hefyd yn cefnogi economïau rhanbarthol ar draws y wlad, sydd yn ei dro yn cael effaith ganlyniadol ar gyflogaeth. Gall cynnyrch lleol hefyd fod yn fwy maethlon gan nad yw wedi teithio cannoedd neu mewn rhai achosion filoedd o filltiroedd. Mae'r manteision yn ddiderfyn.



Bydd y gweithdai hyn yn amhrisiadwy i gynhyrchwyr mewn cyfnod hollbwysig i'r sector bwyd ledled y wlad, felly mae gobaith y bydd cymysgedd da o swyddogion caffael, arlwyo a charbon, yn ogystal â chyflenwyr a dosbarthwyr sydd eisiau archwilio cyfleoedd newydd yn mynychu."

**Darllenwch fwy am y gweithdai yn fan hyn.**

# Partneriaeth Morlais A Stâd Y Goron Yn Torri Tir Newydd

Mewn cam sylweddol i gefnogi twf diwydiant ynni morol y DU, mae cynllun llanw Morlais yng Ngogledd Cymru wedi partneru gyda Stâd y Goron i ddarparu mynediad at ddata arolwg amgylcheddol wedi ei gasglu oddi ar arfordir Môn. Mae Helen Roberts yn Rheolwr Prosiect MCRP, meddai: "Mae hwn yn ddatblygiad gwych i ynni llanw, ac rydyn ni'n falch iawn o chwarae rhan mor flaenllaw.  Mae mynediad at ddata dibynadwy yn hanfodol i ddatblygwyr ac ymchwilwyr prosiect. Gyda'n mewnbwn i'r Gyfnewidfa, bydd data a gwybodaeth ar gael a fydd yn cynyddu dealltwriaeth o amgylcheddau morol ac yn gwella prosesau cynllunio a datblygu. Ein gobaith yw y bydd hyn yn helpu i dyfu'r sector wrth sicrhau bod cynaliadwyedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth."



Mae prosiect ynni llanw Morlais a MCRP yn cydweithio'n agos, ac yn rhan o bortffolio ynni Menter Môn. O'r cychwyn cyntaf, mae gwarchod bywyd gwyllt y môr a chynefinoedd lleol wedi bod yn flaenoriaeth i Morlais. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu drwy MCRP yn chwarae rhan flaenllaw, i sicrhau bydd dyfeisiau ynni llanw yn cael eu gosod yn ddiogel. Gydag ymchwil yn parhau, mae disgwyl i dyrbinau cyntaf Morlais gynhyrchu trydan yn y môr o 2026.

**Darllenwch y stori lawn yma.**

## Llwyddiant i Morlais yng ngwobrau Gyrfa Cymru

Bu ein cynllun ynni llanw, Morlais, yn llwyddiannus yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru a gynhaliwyd yn y Senedd yng Nghaerdydd. Mae'r cynllun wedi ennill y categori Newydd-ddyfodiad Gorau.

Mae llwyddiant yn y gwobrau hyn yn amlygu ein ymroddiad i greu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu ac addysgu pobl ifanc am rôl bwysig ynni'r llanw wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Wrth dderbyn y wobr, mynegodd Fiona Parry, Swyddog Prosiect Sgiliau a Hyfforddiant, ei diolchgarwch:

"Dechreuais gyda Morlais ychydig dros flwyddyn yn ôl, ac mae'n teimlo'n wych i gael ein henwebu ac i ennill y wobr yma.

Mae'r cydweithio gyda Gyrfa Cymru er mwyn ymgysylltu gyda phobl ifanc yn rhan holl bwysig o'r rôl. Mae'n fraint cael mynd mewn i'r ysgolion i sôn am brosiect Morlais, ac i ysbrydoli'r bobl ifanc i feddwl a pharatoi am eu dyfodol."



**Darllenwch y stori lawn yma.**